




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Buddsoddi i Arbed

Adroddiad Blynyddol 2018



Digital ISBN 978-1-78937-342-4

© Crown copyright 2014

Revised May 2018

Buddsoddi i Arbed 2018

Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet

Rwy'n falch o gyflwyno adroddiad blynyddol y gronfa Buddsoddi i Arbed ar gyfer 2018.

Ers 2009, mae'r gronfa wedi rhoi cymorth i tua 180 o brosiectau â gwerth cyfanredol o fwy na £174m. Derbyniodd 21 o'r prosiectau hyn fuddsoddiad o bron £14m yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Buddsoddi i Arbed wedi cefnogi nifer o fentrau pwysig, gan gynnwys:

- Prosiectau buddsoddi sy'n cefnogi agenda Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru – mae cyllid wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau ar draws y sector cyhoeddus i leihau allyriadau CO2 a chreu arbedion ariannol;
- Buddsoddiadau newydd mewn addysg ac yn y trydydd sector ar gyfer amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys gofal iechyd meddwl, datblygu busnesau ac effeithlonrwydd ynni;
- Cronfa newydd, Arloesi i Arbed, a sefydlwyd yn 2017 ar y cyd â Nesta, Prifysgol Caerdydd a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Cafodd y gronfa Arloesi i Arbed ei sefydlu yn sgil adolygiadau o'r gronfa Buddsoddi i Arbed gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad, cwmni ymgynghori allanol a Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae gan y gronfa gyllideb o £5m, a dyma'r gronfa gyntaf o'i bath i gael ei chynnal gan lywodraeth. Nod Arloesi i Arbed yw annog a chefnogi syniadau sy'n fwy arloesol na'r rhai a gefnogir gan Buddsoddi i Arbed. Caiff Arloesi i Arbed ei chynnal ochr yn ochr â Buddsoddi i Arbed.

Denodd cylch ceisiadau cyntaf Arloesi i Arbed 50 o geisiadau o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Dewiswyd wyth o brosiectau ar gyfer y cam ymchwil a datblygu, a thros yr ychydig fisoedd nesaf bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â pha rai o'r wyth prosiect fydd yn cael cynnig cyllid drwy fenthyciad. Yn y cyfamser, cafodd ail gylch o geisiadau ar gyfer Arloesi i Arbed ei lansio ym mis Chwefror 2018 a bydd yn cau ar 16 Gorffennaf 2018.

Mae'r gronfa Arloesi i Arbed yn rhoi'r cyfle i archwilio dulliau newydd a allai fod yn fwy o risg. Yn y cyfamser mae'r gronfa Buddsoddi i Arbed bresennol yn dal yn hynod berthnasol i sefydliadau'r sector cyhoeddus drwy Gymru. Mae'n darparu ffrwd gyllido ad-daladwy i sefydliadau i gefnogi prosiectau sydd wedi'u profi'n barod, a fydd yn gwella gwasanaethau ac yn rhyddhau arbedion, fel y dangosir ar dudalennau'r adroddiad blynyddol hwn.

Bydd cylch ceisiadau Buddsoddi i Arbed eleni yn agor ar 4 Mehefin 2018 a bydd gofyn mynegi diddordeb erbyn 31 Gorffennaf 2018.

**Mark Drakeford – Ysgrifennydd y
Cabinet dros Gyllid**

Mai 2018



Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	5
Cyflawniadau 2017-18	9
Amcanion 2018-19	11
Cyllideb 2018-19	16
Atodiadau	18

Rhagor o wybodaeth ac enwau cyswllt

Mae rhagor o wybodaeth am y Gronfa ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
<http://gov.wales/topics/improvingservices/invest-to-save/?skip=1&lang=cy>

Os hoffech drafod cais ar gyfer prosiect posib, cysylltwch â Paul Bryant yn y tîm Buddsoddi i Arbed drwy e-bostio: I2Sinvestmentfund@gov.wales

Cyflwyniad

Mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn rhoi grantiau di-log ac ad-daladwy. Mae ar gael yn ôl disgrisiwn i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac i sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru. Mae'r Gronfa'n cefnogi prosiectau a fydd yn arwain at arbedion sy'n rhyddhau arian, gan sicrhau gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion hefyd.

Y Rhesymeg ar gyfer defnyddio'r Gronfa

Mae'r Gronfa'n rhan o gyd-destun yr agenda ehangach ar gyfer diwygio ac effeithlonrwydd y gwasanaethau cyhoeddus a'r angen am ddarparu gwell gwasanaethau mewn cyfnod pan fo adnoddau ariannol yn brin. Efallai bod methiannau a materion yn codi ar draws y sector cyhoeddus sy'n atal y gwasanaethau rhag datblygu, er enghraifft:

- Methiannau cydweithredu. Ceir sawl enghraifft lle byddai manteision amlwg pe bai gwahanol sefydliadau'n cydweithio i ddarparu gwasanaethau unedig. Ymhlith yr enghreifftiau o gydweithredu buddiol o'r fath mae gwasanaethau iechyd a chymdeithasol unedig, swyddogaethau budd-daliadau'r awdurdodau lleol a'r gefnogaeth gaiff ei rhoi i unigolion sy'n chwilio am waith.
- Diffyg adnoddau i fuddsoddi mewn newid er y byddai'n arwain at fanteision ariannol amlwg yn y dyfodol. Gallai hwb ariannol yn y tymor byr alluogi i fuddsoddiadau o'r fath barhau a chreu arbedion.
- Methiannau gwybodaeth. Efallai bod bylchau mewn gwybodaeth sy'n amharu ar ddarparu gwasanaethau neu sy'n cael effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.

Amcanion y Gronfa

- Darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell yn unol ag agenda effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a'r agenda ehangach ar gyfer gwelliannau.
- Trawsnewid effeithlonrwydd gweithredol gwasanaethau cyhoeddus a chreu arbedion effeithlonrwydd sylweddol i ryddhau arian.
- Annog cydweithio cadarnach ar draws sefydliadau a ffiniau gweinyddol lle bo hyn yn arwain at fanteision y gellir eu mesur wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.
- Hybu'r gwaith o rannu'r gwersi a ddysgir a'r arferion gorau sy'n codi o brosiectau.

Mae'r cynllun Buddsoddi i Arbed yn cynnig uchafswm o 75% o gost y prosiect fel arfer ond gallai prosiect mewn categori penodol dderbyn 100%, ac mae hyblygrwydd o ran y cyfnod talu'n ôl.

Mathau o prosiect

Mae mwyafrif y prosiectau'n perthyn i gategoriâu penodol, sef:

- Caffael. Galluogi sefydliadau i wneud trefniadau prynu mwy effeithiol a fydd yn arwain at arbedion.
- Trawsnewid prosesau busnes. Newid y ffordd y mae sefydliad yn gweithio fel ei fod yn parhau i gynnal yr un gwasanaeth neu well gwasanaeth tra'n lleihau costau ar yr un pryd.
- Rheoli/defnyddio asedau ac ystadau. Edrych ar ystad sefydliad er mwyn nodi'r asedau y gellid eu gwerthu i greu incwm a lleihau costau rhedeg y sefydliad.
- Rhannu gwasanaethau a chydweithredu sefydliadol. Arbed arian drwy leihau swm y gwaith gaiff ei ddyblygu ar draws sefydliadau.
- Defnyddio ac ehangu'r system TGCh. Defnyddio TGCh i leihau costau, i greu prosesau mewnol mwy effeithiol ac i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd ddefnyddio'r gwasanaeth.
- Datblygu/rhoi modelau darparu gwasanaeth newydd ar waith. Gwella gwasanaethau sy'n arwain at arbedion ariannol yn ogystal â gwell canlyniadau i'r cyhoedd.
- Effeithlonrwydd Ynni. Defnyddio technoleg mwy effeithiol i leihau costau ac allyriadau carbon.

Allbwn a fwriedir



Bydd gan bob cynllun unigol gyfres o allbynnau penodol ond mae gan y Gronfa ei hun hefyd gyfres o allbynnau dymunol:

- Ar unrhyw adeg, dylai'r Gronfa gael rhaglen barhaus o brosiectau sy'n cael eu rhoi ar waith a'u cwblhau. Dylai'r rhaglen hon gynnwys cymysgedd amrywiol o brosiectau sydd nid yn unig yn rhannu arferion da ond sydd hefyd yn arbroti â dulliau newydd. Pe bai'r dulliau hyn yn llwyddo, gellid eu hymestyn i leoliadau addas eraill.
- Cyfle effeithiol i ddysgu a rhannu arferion da. Dyma un o'r heriau sy'n wynebu'r Gronfa ac mae'n faes yr ydym yn gweithio arno er mwyn mynd i'r afael ag ef.

Canlyniadau a Fwriedir

- Manteision y gellir eu cyfnewid am arian sy'n golygu bod posib defnyddio'r adnoddau i gefnogi gwasanaethau eraill. Dylai pob cynllun allu arbed mwy o arian na'r swm a fuddsoddir yn y prosiect a dylai hyn barhau am nifer o flynyddoedd.
- Manteision na ellir eu cyfnewid am arian sy'n gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae ffyrdd amrywiol o gyflawni hyn megis cydweithredu rhwng sefydliadau, cydleoli, ailgyfeirio adnoddau i wasanaethau rheng flaen neu drwy ddigideiddio cofnodion i'w gwneud yn fwy hygyrch.
- Manteision meintiol, hynny yw manteision y gellir eu mesur, fel mwy o welyau ar gael neu lai o golli asedau. Nid manteision ariannol yn unig yw manteision meintiol ond mae angen gallu eu mesur gyda rhywfaint o sicrwydd.
- Manteision nad ydynt yn feintiol a buddion strategol fel codi ysbryd y staff a darparu gwasanaethau'n ddidrafferth. Mae'r manteision hyn yn gallu bod yn anos i'w mesur ac er eu bod yn 'feddalach' o ran natur, gallant sicrhau gwelliannau gwirioneddol i lefel y gwasanaeth a gaiff dinasyddion. Gall sefydliadau fesur y manteision hyn drwy adnoddau fel arolygon staff neu drwy fonitro lefelau absenoldeb salwch ac ati. Fodd bynnag, gallai ffactorau eraill effeithio ar ganlyniadau arolygon o'r fath, felly mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau.

Y Cylch Buddsoddi I Arbed a'r Effeithiau Net



Darparu gwasanaethau'n



Gwella Gwasanaethau I Ddinasyddion

Cyflawniadau 2017-18

Yn 2017-18 buddsoddodd y Gronfa Buddsoddi i Arbed £14 miliwn mewn 21 o brosiectau, a hynny ymlaen llaw.

Mae'r tabl canlynol yn dangos manylion y buddsoddiadau fesul sector.

Sector	Nifer y Prosiectau	Gwerth y Buddsoddiad £000
GIG Cymru	15	6,404
Cyrff a noddur	1	175
Addysg Bellach	1	126
Addysg Uwch	1	377
Llywodraeth Cymru	2	6,535
Eraill	1	424
	21	14,041

Gellir gosod pob prosiect mewn categori penodol, ac ar gyfer 2017-18 gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:

Thema	Nifer y Prosiectau	Gwerth y Buddsoddiad £000
Effeithlonrwydd Ynni	1	126
Dulliau Gweithio Newydd	14	4,286
Staffio	2	375
TGCh	3	8,830
Trawsnewid Busnes	1	424
	21	14,041

Amcanion ar gyfer 2018-19

Ers 2009 mae'r Gronfa wedi denu a chefnogi ystod eang o brosiectau ac mae nifer y datganiadau o ddiddordeb sy'n dod i law yn dal ar lefel weddol uchel. Er hynny, prosiectau graddfa fach yw llawer o'r prosiectau felly mae'r arbedion yn llai o ran eu graddfa na buddsoddiadau mwy. Er bod y gronfa'n derbyn syniadau graddfa fawr a bach un o nodau'r Gronfa yn 2018-19 yw denu detholiad o brosiectau uchelgeisiol sy'n ceisio datrys rhai problemau sylfaenol. Er mai cynigion ar raddfa gymharol fach yw'r rhain, yn bendant byddai modd eu huwchraddio i lefel genedlaethol er mwyn cael effaith sylweddol.

Cydweithio â Nesta, Phrifysgol Caerdydd a WCVA - Arloesi i Arbed

Mae'r cydweithio hwn yn dilyn yr adroddiad diweddar ar y gronfa Buddsoddi i Arbed a gyhoeddwyd gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru. Mae copi o'r adroddiad i'w weld yma <http://ppi.w.org.uk/category/news/>

Mae'r gronfa newydd hon yn wahanol i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed draddodiadol mewn nifer o ffyrdd:

- Gallai fod yn ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r syniadau felly bydd angen cyfnod o ymchwil a datblygu i weld a fyddant yn gwireddu'r canlyniadau a ragwelir neu beidio;
- Gellir rhoi mwy o gymorth i sefydliadau llwyddiannus a bydd ganddynt fynediad i gyngor am brosiectau a rheoli prosiectau;
- Mae ganddo gymysgedd o gyllid ad-daladwy a heb fod yn daladwy. Diben y cyllid heb fod yn daladwy yw cefnogi ymchwil ac mae'r cyllid ad-daladwy'n ymdrin â chostau gweithredu;
- Mae amserlenni ad-dalu'n fwy hyblyg o gofio'r mathau o ased yr ydym yn buddsoddi ynddynt; a
- Gall buddsoddiadau fod hyd at 100 y cant o'r costau gweithredu.

Trefnwyd bod £5 miliwn ar gael ar gyfer y fenter hon ac fe gaiff yr is-gronfa hon ei gweinyddu i ddechrau gan Brifysgol Caerdydd. Mae datganiadau o ddiddordeb a nodiadau cyfarwyddyd i'w cael trwy ddilyn y ddolen ar dudalennau gwe Buddsoddi i Arbed.

Denodd y cylch ymgeisio cyntaf a agorodd ar 17 Chwefror 2017 gyfanswm o 50 o geisiadau. Cafodd hwn ei leihau i restr fer o wyth prosiect a ddewiswyd ar gyfer y cyfnod ymchwil a datblygu. O'r rhain, mae pedwar prosiect hyd yn hyn wedi datgan eu bwriad i gwblhau achos busnes llawn cyn cam nesaf cymeradwyaeth y Gweinidogion.

lansiwyd yr ail gylch ymgeisio ar 19 Chwefror gyda dyddiad cau o 16 Gorffennaf. Mae manylion yr ail gylch i'w cael yn : <https://www.nesta.org.uk/project/innovate-save>


Manylion Cyllideb y Gronfa Buddsoddi i Arbed 2018-19

Cyllid refeniw sydd ar gael	£000
	Cyllideb ddangosol 2018-19
Y Gronfa Buddsoddi i Arbed	8,021
Sy'n cynnwys ad-daliadau gan:	
Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau	4,421
Cynlluniau Cyrff a noddir	1,579
Llywodraeth Cymru	2,021

Cyllid cyfalaf sydd ar gael	£000
	Cyllideb ddangosol 2018-19
Cyfanswm cyllideb gyfalaf Buddsoddi i Arbed	5,603
Sy'n cynnwys ad-daliadau gan:	
Llywodraeth leol	2,408
Y sector addysg	1,142
Y Gwasanaeth Tân ac Achub	1,221
Llywodraeth Cymru	503
Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru	81
Y Trydydd sector	248

Cyfanswm y Gyllideb	£000
Refeniw	8,021
Cyfalaf	5,603
Cyfanswm	13,624

Dadansoddiad o Fuddsoddiadau'r gorffennol



Atodiad 1 Astudiaethau Achos

Buddsoddi i Arbed – Amnewid nymbiau trwytho ac offer ategol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Y Broblem! Yr Ateb! Y Canlyniad!



Cyfanswm Gwerth y Benthyciad: £281,250

Arbedion Blynyddol: £279,000

Cyfnod as-dalu'r prosiect: 3 blynedd

Yn sgil creu Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn 2009 etifeddwyd nifer mawr o ddyfeisiau trwytho o'r sefydliadau a fu'n rhan o'r Bwrdd gwreiddiol.

Nid oedd y nifer gormodol o fath o bympiau a oedd ar waith a'u cyfluniad yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd gydymffurfio â chanllawiau cyfredol yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ar systemau trwytho sydd mewn grym ar hyn o bryd.

Roedd perygl y byddai methu â disodli'r stoc bresennol yn arwain at yr angen i dynnu cyfran fawr o'r stoc ar ôl gan y bernid eu bod wedi dod i ddiwedd eu hoes sawl blwyddyn yn ôl

Roedd symudedd / hyblygrwydd staff yn cael ei gyfaddawdu oherwydd y nifer gormodol o ddyfeisiau a gofynion hyfforddi

Cafodd y stoc gyfan o ddyfeisiau trwytho a oedd wedi darfod yn glinigol ac yn dechnegol ei disodli ag offer Bbraun Modern.

Byddai'r offer newydd hwn:

1. Yn lleihau risg clinigol ac yn gwella diogelwch cleifion
2. Yn cyflwyno nodweddion diogelwch modern i therapi drwytho
3. Yn cynnig ffordd o ymestyn y gwaith o safoni arferion ar draws y Bwrdd Iechyd
4. Yn cyfrannu at well canlyniadau i gleifion

Yn sgil cyflwyno dyfeisiau BBraun gyda system Meddalwedd Lleihau Gwallau mewn Dosau (DERS) wedi'i gosod ymlaen llaw, Hywel Dda yw'r Bwrdd Iechyd cyntaf yng Nghymru i feddu ar welliannau o'r fath ar gyfer cleifion yn ei stoc o ddyfeisiau trwytho

- Yn sgil safoni dyfeisiau BBraun mae nifer yr amrywolion mewn dyfeisiau ar draws Hywel Dda wedi gostwng o 30 i 9.
- Cynyddodd perfformiad hyfforddiant i ddefnyddwyr o ryw 40% cyn y prosiect i 85% wrth i'r prosiectau ddod i ben
- Llwyddwyd i osgoi costau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.
- Cynyddu symudedd staff ar draws y Bwrdd Iechyd
- Cynydd yn y defnydd o ddyfeisiau trwytho ar draws y Bwrdd Iechyd

Buddsoddi i Arbed - Darparu Gwasanaeth Diabetes Cymunedol dan arweiniad Nyrsys i Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Y Broblem!	Yr Ateb!	Y Canlyniad!
------------	----------	--------------



Cyfanswm Gwerth y Benthyciad: £152,000
 Arbedion Blynnyddol: £103,000
 Cyfnod as-dalu'r prosiect: 2 blynedd

Ar hyn o bryd, mae Diabetes yn effeithio ar 5.6% o'r boblogaeth ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, sef 9% o gyfanswm y gyllideb.

Gan ddefnyddio cyllid Buddsoddi i Arbed, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu mynd i'r afael â'r angen cynyddol am wasanaeth nyrsio arbenigol Diabetes.

Bydd y gwasanaeth hwn yn gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr gofal sylfaenol gan ddarparu'r gofal mwyaf addas yn nes at y cartref mewn modd amserol, gyda phwyslais ar atal, ymyrraeth gynnar a hunan-reoli gwell i'r boblogaeth yr effeithiwyd arni. Mae hyn yn cynnwys pontio i ddefnyddio ffurfiau mwy addas o inswlin.

Bydd nyrs arbenigol diabetes yn ategu gwaith ymarferwyr gofal sylfaenol drwy:

1. Ddadansoddi data a gasglwyd gan gleifion â diabetes a reolir yn wael, a lle bo'n glinigol addas, newid eu presgripsiwn i inswlin NPH.
2. Newid canran fechan o gleifion sydd ar hyn o bryd yn cymryd Lantus (ond nad ydynt yn cyflawni targedau gylcemig) i inswlin NPH er mwyn arbed 30% o'r costau.
3. Trin cleifion sydd newydd gael diagnosis gydag inswlin NPH.

Mae 3 nyrs Arbenigol Diabetes wedi'u cyflogi, a hyd yn hyn:

- Mae 484 o gleifion wedi'u hadnabod o fewn cwmpas y prosiect, gyda 210 o gleifion wedi'u trosglwyddo i'r ffurf ddydol o inswlin.
- Mae holl feddygfeydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi'u targedu er mwyn recriwtio i'r prosiect.
- Gwelwyd gostyngiad o 19% yn nifer y cydweddau inswlin cyfnod hir fel canran o gyfanswm yr inswlin cyfnod hir a chyfnod canolig sy'n cael ei roi ar bresgripsiwn mewn gofal eilaidd.
- Gwelwyd gostyngiad o 3.85% yn nifer y cydweddau inswlin cyfnod hir fel canran o gyfanswm yr inswlin cyfnod hir a chyfnod canolig sy'n cael ei roi ar bresgripsiwn mewn gofal sylfaenol. Dyma'r gostyngiad mwyaf o'r holl fyrddau iechyd yng Nghymru.

